



Cymdeithas Brodwaith Cymru

CYLCHLYTHYR GAEAF 2016 - 17

Croeso i rifyn y Gaeaf o'r Aur Winiadau.

Dyma gynnyrch gweithdy gan Delyth Edwards o Rhuthun i Gangen y Gogledd-Ddwyrain



ac arddangosfa gan Gangen Môn ac Arfon yn eu Cinio Hen Galan ym Mryn Eisteddfod, Clynnog.



Gair o'r Gadair

Gair gan ein Cadeirydd, Eysyllt Jones

Blwyddyn Newydd Dda i chi unwaith eto a gobeithio eich bod yn cael hwyl wrth ailgydio yn eich gweithgareddau ar ôl prysurdeb y Nadolig. Wrth bori drwy'r cylchlythyron dwi wedi cael blas ar weithgareddu'r canghennau a sylwi ar yr ystod eang o waith, - o sesiynau ffeltio, gwaith shisha, appliqué a llifo heb sôn am y tripiâu a'r prydau bwyd i gyd. Mae'n amlwg fod yna gyd-bwysedd da rhwng y gwaith a'r cymdeithasu a dalier ati.

Wrth ysgrifennu'r pwt yma ym mis Ionawr dwi'n edrych ymlaen at y Cwrs Preswyl ym mis Mawrth ym Mhlas Tanybwllch unwaith eto; ac er fod Hanna Roberts yn methu bod yno mae'n braf gwybod y bydd Eirlys Savage, sy'n arbenigwraig a phrofiadol yn ei maes, yno yn ei lle ddydd Sadwrn 4ydd Mawrth. Efallai y gwelwn beth o ffrwyth y cwrs ar y stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni?

Fe ellir gweld lluniau o'r stondin yn Eisteddfod y Fenni ym mis Awst 2016 ar y wefan a gobeithio y cewch gyfle i gael cip arnynt. Roedd yn braf gweld adlewyrchiad teg o waith amrywiol a deniadol aelodau'r Gymdeithas, er nad oedd cymaint o waith ar gael ac mae'n debyg fod nifer y cyfraniadau wedi mynd i lawr yn flynyddol. Ga' i ofyn i chi ystyried cyfrannu eleni felly? Dewiswyd **Byd Natur** yn thema eleni a gobeithio y bydd yn destun fydd yn eich ysbrydoli.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd yn yr Eisteddfod Genedlaethol llynedd a bu gwerthiant da ar y nwyddau unwaith eto.

Er mwyn parhau fel cymdeithas lwyddiannus mae'n bwysig fod gennym swyddogion ar gyfer y gwaith. Bydd Gwyneth a finau yn gorffen ein tymor ym mis Awst 2017 ac ar hyn o bryd does yna ddim is-swyddogion. Dwi'n ymbil yn daer arnoch ystyried ymgymryd â'r swyddi – mae eich angen chi ar y Gymdeithas.

Ac yn olaf hoffwn ddiolch i'm cyd-swyddogion am eu gwaith ac am bob cyd-weithrediad gydol y flwyddyn.

Eysyllt

Cwrs penwythnos Plas Tanybwllch

4 - 5 Mawrth 2016

Yn anffodus nid oedd yn bosibl i Hanna Roberts gymryd y cwrs wedi'r cwbl ond yn ffodus iawn, mae Eirlys Savage wedi cytuno i fod yn diwtor am y dydd Sadwrn, gyda Bethan, ei merch, yn ei chynorthwyo. 'Toddi a Thorri' yw'r testun a byddwn yn defnyddio organza i wneud dail a blodau gan ddefnyddio peiriant. Mae'r cwrs yn addo bod yn un difyr ond heriol iawn i rai ohonom. Dyna sy'n braf iawn am ein cyrsiau – y fath amrywiaeth sy'n cael ei gyflwyno i ni o flwyddyn i flwyddyn.

Nifer cyfyngedig sy'n medru mynychu'r cwrs wrth gwrs, ond yn lwcus iawn mae yna ychydig o lefydd yn dal ar gael. Cost y cwrs yw £120.00 am gyfnod llawn (tan ar ôl cinio Sul) a £60.00 am ddydd Sadwrn yn unig. Gofynnir am flaendal o £50.00.

Felly, os nad ydych wedi cofrestru'n barod, anfonwch eich enw yn fuan, os gwelwch yn dda, i'r Ysgrifennydd – Gwyneth Jones, Feidiog, 12 Maes Tegid, Y Bala LL23 7BF. Mae angen y wybodaeth ar y Plas er mwyn gallu cwblhau'r trefniadau.

Swyddogion y Gymdeithas

Sylfaenydd:	Joyce Jones	☎ 01766 522085	E-bost: joyce@stitch.co.uk
Llywydd Cenedlaethol:	Brenda Wyn Jones	☎ 01248 600020	
Cadeirydd:	Eysyllt Jones	☎ 01792 898211	E-bost: jonesesyllt@yahoo.com
Is-gadeirydd:			
Trysorydd:	Mary Williams	☎ 01766 522466	E-bost: cmw466@gmail.com
Is-drysorydd:	Buddug Roberts	☎ 01766 522497	E-bost: rhiwcriccieth@gmail.com
Ysgrifennydd:	Gwyneth Jones	☎ 01678 520813	E-bost: feidiog12@gmail.com
Is-ysgrifennydd:			
Ysg. Aelodaeth:	Gwenfyl Jones	☎ 01745 890417	E-bost: gwenfyljones@btinternet.com
Golygydd:	Margaret Griffith	☎ 01766 810513	E-bost: m.griffith901@btinternet.com

Fel y dywed Eysyllt yn ei neges, mae angen enwau ar gyfer Is-gadeirydd ac Is-Ysgrifennydd. Os oes unrhyw un yn fodlon ymgymryd â'r swyddi, cysylltwch â'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd.

O Ardal i Ardal

RHANBARTH Y CANOLBARTH

Dyma'r flwyddyn newydd wedi cyrraedd a ninnau yn edrych yn ôl ar y cyrsiau a gawsom dros yr hydref.

Syniad y cwrs cyntaf yng ngofal Diana Jones ac Eryl Evans oedd i wneud bagiau origami. Hynny ydi, plygu defnydd i greu bagiau. Roeddem yn dechrau gyda sgwâr ac yn gwneud amrywiaeth o blygiadau i greu bag. Mae'n syndod cymaint o amrywiaeth o fagiau a grëwyd yn ystod y dydd. Wrth i'r Nadolig agosáu daeth Gwyneth Jones atom i greu addurniadau Nadolig. Diwrnod pleserus a hwyliog a rhai o'r merched wedi llwyddo creu sawl addurn bach.

A nawr mae'n amser edrych ymlaen. Bydd ein cwrs cyntaf ar 21 Ionawr pan fydd Mair Jones yn ein tywys i wneud mat i'w osod o dan y peiriant gwnïo. 25 Chwefror byddwn yn cwrdd i bwytho a chael clonc, ac yna ar 25 Mawrth edrychwn ymlaen i gael diwrnod yng nghwmni Esyllt Jones gyda dydd o bwytho creadigol. Digon i edrych ymlaen ato.

CANGEN Y GOGLEDD DDWYRAIN

I ddechrau ein tymor ym mis Medi cawsom weithdy hefo Gwenfyl, un o'n aelodau. Gwneud rholyn anghenion pwytho - handi iawn i gadw popeth yn ei le. Diwrnod braf iawn yng nghwmni ein gilydd a Gwenfyl yn athrawes amyneddgar iawn.

Magic a mwclis gawsom ym mis Hydref gan Eleri aelod arall o'r gangen sy'n mwynhau arbrofi gyda phethau newydd. Gwnaed gwyrthiau hefo gwahanol ddefnydd a gleiniau.

Defnyddio Fast2Fuse i wneud jwg hefo Delyth Edwards o Rhuthun wnaethom ym mis Tachwedd. Dwi'n siŵr y bydd ambell un wedi gwneud casgliad o jygiau i'w rhoi ar y dresell!

I Bod Erw, Llanelwy yr aethom i ddathlu'r Nadolig. Bwyd da a chwmni da. Yn ystod y nos llongyfarchwyd sawl aelod am ennill gwobrau yn y Ffair Aeaf a chawsom weld peth o'r gwaith. Noson fendigedig.

CANGEN MÔN AC ARFON

Cafwyd cyfnod prysur a hwyliog gydag Anwen Bumby yn agor y tymor trwy egluro cyfrinachau'r peiriant gwnïo yn barod ar gyfer gweithdy gwneud addurn canol bwrdd gydag Alison Chapman ym mis Hydref.

Bellach rydym wedi meithrin perthynas glos gydag aelodau Cangen y Gogledd Ddwyrain, a braf oedd croesawu Eirlys Savage atom yn Nhachwedd. Cawsom arweiniad i glytwaith clytiog gan ddefnyddio peiriant a phwythau llaw megis pwyth pry, pwythau cadwyn a phwythau plu.

Eleri Jones o'r un gangen ddaeth atom ym mis Rhagfyr – gwaith peiriant gan fwyaf y tro hwn i greu blodau gyda chadach a gwifren. Daeth Cefyn Burgess atom yn ystod y tymor hefyd i sôn am brosiect arbennig y bydd yn gweithio arno ar y cyd â Sain Ffagan ar hanes y Tywysog Llywelyn. Cytunodd nifer o aelodau i helpu gyda'r brodio.

Dathlwyd yr Hen Galan yng Ngwesty Bryn Eisteddfod gyda chinio ardderchog, arddangosfa o waith yr aelodau, Sach Santa a chyfraniad tuag at yr elusen Alzheimer's. Mae'r gangen hefyd yn cynnal raffl yn fisol tuag at Eisteddfod Genedlaethol Môn.

Teithiodd 46 ohonom i Nottingham ddiwedd Hydref trwy garedigrwydd Arian y Loteri Fawr, gan ymweld ag Amgueddfa Wau, Amgueddfa Wollaton Hall a Rufford Abbey, lle cawsom ginio Sul ardderchog cyn cychwyn am adref.

Mae croeso i eraill ymuno gyda ni ar y daith nesaf ar y penwythnos olaf yn Ebrill pryd byddwn yn aros yn yr Hilton, Swindon ac yn ymweld â mannau o ddiddordeb unwaith eto.

ARDDANGOSFA

Yn rhifyn yr Haf 2016 yr oedd sôn am ddwy arddangosfa, sef Gŵyl Bwythau Abertawe o 5 i 19 Awst ac Arddangosfa Brodwaith yng Nghanolfan Plase yn Y Bala. Gobeithio i chi gael cyfle i weld y nail neu'r llall ohonynt ac edmygu'r gwaith gwydh.

Y tro yma bydd arddangosfa yn Oriel Rob Piercy ym Mhorthmadog i ddathlu 30 mlynedd o ddosbarthiadau Joyce Jones – y dosbarthiadau a arweiniodd i sefydlu ein Cymdeithas. Y dyddiadau yw 7 i 11 Mawrth 2017.

Gweithgareddau

Mae croeso i bawb ymuno â'r holl weithgareddau – ond i chi gysylltu ymlaen llaw am fanylion ac i sicrhau bod lle!

Y Gogledd Ddwyrain

Cynhelir pob gweithdy yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun o 10.00 yb. – 3.00 yp.
Mae angen rhoi enw ymlaen llaw i'r ysgrifennydd, Lis Lloyd Edwards ar 01745 815270.

18 Chwefror: Diwrnod gyda Beryl Morris

22 Ebrill: Diwrnod cymdeithasol i gau pen y mwdl

18 Mawrth: Brethyn Cartre
gyda Gwenan Carrington

23 Mai: Trip i'w drefnu

Meirionnydd

Cynhelir pob cyfarfod yng Nghanolfan Tegid, Y Bala o 10.30 y.b. – 3.30 y.p.
Os am fynychu cysylltwch â Mair Rees ar 01678 521343 neu Carys Williams ar 01490 420436

28 Ionawr: Torwaith Gwaith Richelieu

22 Ebrill: Gwneud Tiws / Gorffen gwaith

Môn ac Arfon

Cynhelir y cyrsiau i gyd am 10 y bore yn Nhan Lan, Bodorgan.
Manylion pellach gan Gladys Pritchard 01407 762090.

11 Chwefror: Meistrioli pwyth gorwedd
gyda Rhiannon Parry

Ebrill: Taith y Gwanwyn i Bath -

11 Mawrth: 'Magic, mwclis a mwy'
gydag Eleri Jones

6 Mai: Gwaith Natur – Tusw o flodau
gyda Beryl Morris

1 Ebrill: Pwrs bach

3 Mehefin: Gwaith Natur –
gyda pheiriannau addurno (embellishers)

Y Canolbarth

Cynhelir pob gweithgaredd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre o 10.00 yb. – 4.00 yp.
Manylion pellach gan Eryl Evans 01970 820778.

25 Chwefror: Pwyth a chlonc

25 Mawrth: Pwythau creadigol gydag Eysyllt

Dwyfor

Manylion pellach gan Meinir Lloyd Jones ar 01766 770745.

7 – 11 Mawrth: Arddangosfa yn Oriel Rob Piercy, Porthmadog

YR EISTEDDFODAU

Bu gwerthiant da ar y nwyddau yn Eisteddfod y Fenni y llynedd a diolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r stondin. Enillwyr y raffl oedd Nesta Richards, Pentrellyncymmer a Mary Jones, Aberporth. Llongyfarchiadau i'r ddwy.

Eleni eto bydd gennym stondin yn Eisteddfod Ynys Môn ac fel y crybwyllodd Eysyllt y thema yw **Byd Natur**, testun cynhwysfawr fydd yn rhoi digon o gyfle i ni gael amrywiaeth o waith i'w arddangos gobeithio.

Fel y llynedd, am 10 o'r gloch y bore y bydd y stondin yn agor ond gofynnwn yn garedig ar i fwy ohonom roi amser i wirfoddoli ar y stondin. Fel arall, mae'n mynd yn drwm iawn ar yr ychydig ffyddlon sydd yno bron yn barhaol.

Byddwn hefyd angen gwirfoddolwyr i werthu tocynnau raffl cyn ac yn yr Eisteddfod. Cofiwch fod y gwerthiant yma yn cyfrannu'n sylweddol at weithgareddau'r Gymdeithas.

BWRSARI

ar gyfer ein haelodau

Cofiwch ein bod yn cynnig arian i'n haelodau o bob oed i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1 i 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r Ysgrifennydd.

AELODAETH

Unwaith eto gofynnwn i chi dalu eich tâl aelodaeth drwy orchymun banc (ffurflen ar gael gan yr Ysgrifennydd Aelodaeth). Gofynnir hefyd i bob Cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol.

DEFNYDDIAU BRODIO – rhatach!

Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i aelodau'r Gymdeithas, dim ond ichi ddangos eich tocyn aelodaeth. Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddu'n gyson.

Canolfan Grefftau Tan Lan, Bodorgan, Ynys Môn.
Kit 'N Kaboodle, Adeiladau'r Banc, Breeze Hill, Benllech, Ynys Môn.

Kit 'N Kaboodle, Tŷ Menai, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll, Ynys Môn

Silken Strands, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)

Siop D.E., Y Bala

Brethyn Blaenau, 33 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog

Golygydd: Margaret Griffith
Cyhoeddwy: Cymdeithas Brodwaith Cymru